

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

# JUNIOR APPRENTICESHIPS

Full-time career focused learning programmes for 14-16 year olds

**THE NEW WAY TO YOUR FUTURE**

www.cavc.ac.uk

In partnership with:

CARDIFF
CAERDYDD

# THE NEW WAY TO YOUR FUTURE FULL-TIME CAREER FOCUSED LEARNING PROGRAMMES FOR 14-16 YEAR OLDS

Cardiff and Vale College has launched 'Junior Apprenticeships' – a new range of full-time learning programmes for 14-16 year olds.

**Junior Apprenticeships are a unique new way to learn and start training for a future career. During Year 10 and 11 young people on a Junior Apprenticeship programme come to college, instead of school, five days a week during term-time.**

On a Junior Apprenticeship you can develop knowledge, skills and gain industry qualifications for your chosen future career. Alongside this you will study English and Maths and continue to sit GCSE exams in these subjects which are important for any future career.

These unique programmes, jointly funded by Cardiff City Council, Cardiff schools and Cardiff and Vale College, offer a brand new route for young people to train for a future career. Our aim is to make you employable and ready to progress onto your next step – a higher level course or apprenticeship in your chosen career at the age of 16.





## ABOUT JUNIOR APPRENTICESHIPS

On a Junior Apprenticeship you will...

- Have the opportunity to start training for a career at the age of 14
- Have the same terms and holidays as your school
- Study at college during term-time 5 days per week, 9.30am - 3.30pm
- Receive learning support of our Learning Coaches and continue to receive free transport and school meals if eligible
- Focus on a subject you really enjoy and would like a future career in
- Study for industry recognised qualifications
- Step out of the school environment and into CAVC's City Centre Campus - a college where you can learn in industry standard facilities and with industry qualified tutors
- Have the opportunity to gain a Level 1 or 2 qualification relevant to that career, plus a GCSE in English and Maths
- Gain a guaranteed place at CAVC on a higher level course or apprenticeship in that area when you successfully complete Year 11
- Prepare for employment and a career in the area you choose



## CHOOSE THE JUNIOR APPRENTICESHIP YOU WANT TO JOIN

### Automotive
Are you passionate about cars? Would you like to work in the automotive industry? This programme will develop your skills and experience to start training for a career in mechanics, body repair and maintenance with light or heavy vehicles.

### Catering and Hospitality
Think you could be the next top chef? Develop your knowledge, skills and experience for a future career in catering and hospitality - learning in our fantastic restaurant, kitchens and bakery.

### Construction
Train for a career in construction. Develop hands on skills and experience in brickwork, carpentry, painting and decorating and find the career path you want to follow.

### Creative
If you are creative and interested in art and digital media this programme lets you focus on developing your skills and qualifications to start an exciting creative career.

### Customer Services, Hairdressing and Beauty*
Develop skills and experience in Customer Services, Hairdressing and Beauty and open doors to a wide range of careers in these areas, learning in our top class on-site commercial salon and spa - urbasba.

### Public Services
This exciting programme develops your problem solving, teamwork, leadership skills and confidence as you take on projects, challenges and outdoor pursuits to start developing your skills for a career in one of the public services.

*Available subject to funding



“My favourite part of the course is the practical side but I also enjoy the theory side, learning about engines, suspension and different types of tyres. We get a lot of help with Maths and English too. I'm learning a lot and this will really help me in the future to work in professional garages.

**Jack Henderson**



“We learn a lot about the media industry and how it works. My favourite part of the course is learning about animation and stock motion which is practical and hands on. The building is amazing and it's really different to school, I feel more independent and you can really be yourself. I'm really excited about making an animation and promotional video which we will be doing later in the year. The teachers are really supportive and the small class sizes are helpful.

**Rachael Weston**



“The course is more hands on to what I was doing in School. We are in the workshops a lot, learning skills and making things. We made wine boxes before Christmas. In the future I want to go onto a Plumbing course and see where that can take me.

**Tyrese Jones**



“I enjoy the cooking the most on this course. We've learnt how to bake pastries, how to cook lots of different dishes and curries. I'm looking forward to learning more about cooking and progressing onto further catering courses, it's really fun.

**Olivia Wyatt**



> We learn all about hairdressing and beauty treatments including nails, massage and facials. The best part for me is the hairdressing. I want to be a hairdresser in the future and my ambition is to own my own salon. The tutors are really nice and the facilities are great. I'm looking forward to learning more about cutting and colouring.
>
> **Jade Cross**

## ABOUT CARDIFF AND VALE COLLEGE

Cardiff and Vale College (CAVC) is one of the largest colleges in the country. We work in partnership with schools across the region to support young people to learn, achieve and progress into the career of their choice.
CAVC has:

- ✓ the highest success rate in the Welsh FE sector, with 88% of our students achieving their qualification
- ✓ a double 'Good' grading from Estyn in our recent inspection
- ✓ fantastic links with employers – offering all students work experience and working with thousands of apprentices across the region
- ✓ robust student support - ensuring our students receive appropriate pastoral care and learning support
- ✓ a focus on employability and progression, working with each individual to help them achieve their career goals

## WANT TO APPLY FOR A JUNIOR APPRENTICESHIP?

### What do we look for?

For 2015/16, Cardiff and Vale College will be offering 105 places to young people in Cardiff on a Junior Apprenticeship. We expect there to be a high demand for places and are looking for young people starting Year 10 in September who...

- Want to start training for a future career
- Are motivated to come to college, work hard and learn about this subject

You do not need prior qualifications.

### How can I apply?

To apply you must speak to your Head of Year in school or lead person where you are currently registered to learn. The College is unable to take direct applications for Junior Apprenticeships.
All applicants must be referred through school or where you are currently registered to learn.


PRENTISIAETHAU IAU
Rhaglenni dysgu llawn amser gyda ffocws ar yrfa i ieuenctid 14-16 oed
Y LLWYBR NEWYDD AT EICH DYFODOL
In partnership with:
CARDIFF CAERDYDD
www.cavc.ac.uk

# Y LLWYBR NEWYDD AT EICH DYFODOL
# RHAGLENNI DYSGU LLAWN AMSER GYDA FFOCWS AR YRFA I IEUENCTID 14-16 OED

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi lansio 'Prentisiaethau Iau' - ystod newydd o raglenni dysgu llawn amser ar gyfer ieuenctid 14-16 oed.

**Mae Prentisiaethau Iau yn ffordd newydd unigryw o ddysgu a dechrau hyfforddi ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol. Ym Mlynyddoedd 10 ac 11, mae pobl ifanc ar raglen Prentisiaeth Iau'n dod i'r coleg, yn hytrach na mynd i ysgol, bum diwrnod yr wythnos yn ystod y tymor.**

Ar Brentisiaeth Iau cewch ddatblygu gwybodaeth a sgiliau ac ennill cymwysterau'r diwydiant ar gyfer yr yrfa o'ch dewis yn y dyfodol. Ochr yn ochr â hyn byddwch yn astudio Saesneg a Mathemateg ac yn parhau i sefyll arholiadau TGAU yn y pynciau pwysig hyn ar gyfer unrhyw yrfa.

Mae'r rhaglenni unigryw hyn, sy'n cael eu cyllido ar y cyd gan Gyngor Dinas Caerdydd, ysgolion Caerdydd a Choleg Caerdydd a'r Fro, yn cynnig llwybr newydd sbon i bobl ifanc hyfforddi ar gyfer gyrfa yn y dyfodol. Ein nod ni yw eich gwneud chi'n gyflogadwy ac yn barod i symud ymlaen i'ch cam nesaf – cwrs lefel uwch neu brentisiaeth yn yr yrfa o'ch dewis yn 16 oed.





## AM BRENTISIAETHAU IAU

Ar Brentisiaeth Iau byddwch yn gwneud y canlynol...

- Cael cyfle i ddechrau hyfforddi ar gyfer gyrfa yn 14 oed
- Cael yr un tymhorau a gwyliau â'ch ysgol
- Astudio mewn coleg yn ystod y tymor 5 diwrnod yr wythnos, 9.30am - 3.30pm
- Parhau i gael cefnogaeth ddysgu gyda'n hyfforddwyr dysgu a chefnogaeth gyda chludiant am ddim a phrydau ysgol am ddim os ydych yn gymwys i gael hynny
- Ffocws ar bwnc rydych chi wir yn ei fwynhau ac yn gweld dyfodol i chi ynddo
- Astudio am gymwysterau a gydnabyddir gan y diwydiant
- Camu allan o amgylchedd yr ysgol i Gampws Canol y Ddinas CCAF – coleg ble gallwch ddysgu mewn cyfleusterau o safon diwydiant dan arweiniad tiwtoriaid cymwys y diwydiant
- Cael cyfle i ennill cymhwyster Lefel 1 neu 2 yn yr yrfa honno a hefyd TGAU mewn Saesneg a Mathemateg
- Sicrhau lle wedi'i warantu yn CCAF ar gwrs lefel uwch neu brentisiaeth yn y maes hwnnw wrth gwblhau Blwyddyn 11 yn llwyddiannus
- Paratoi ar gyfer cyflogaeth a gyrfa yn y maes o'ch dewis



## DEWIS Y BRENTISIAETH IAU RYDYCH CHI EISIAU YMUNO Â HI

### Modurol
Ydych chi'n hoff iawn o geir? 'Fyddech chi'n hoffi gweithio yn y diwydiant Modurol? Dyma raglen i ddatblygu eich sgiliau a'ch profiad i ddechrau hyfforddi ar gyfer gyrfa mewn mecaneg ac atgweirio a chynnal a chadw cerbydau ysgafn neu drwms.

### Arlwyo a Lletygarwch
Ai chi fydd y cogydd enwog nesaf? Cyfle i ddatblygu eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch profiad ar gyfer gyrfa ym maes arlwyo a lletygarwch yn y dyfodol. Cewch ddysgu yn ein bwyty, ein ceginau a'n becws rhagorol.

### Adeiladu
Cewch hyfforddi am yrfa mewn adeiladu a datblygu sgiliau a phrofiad ymarferol mewn gwaith brics, saer coed, paentio ac addurno a dod o hyd i'r llwybr gyrfaol rydych chi eisiau ei ddilyn.

### Creadigol
Os ydych chi'n greadigol ac os oes gennych chi ddiddordeb mewn celf a chyfryngau digidol, mae'r rhaglen yma'n gyfle i chi ganolbwyntio ar ddatblygu eich sgiliau a'ch cymwysterau i ddechrau ar yrfa greadigol gyffrous.

### Gwasanaethau Cwsmeriaid, Trin Gwallt a Harddwch*
Cyfle i ddatblygu sgiliau a phrofiad mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid, Trin Gwallt a Harddwch ac agor drysau ar amrywiaeth eang o yrfaoedd yn y meysydd hyn. Byddwch yn dysgu yn Urbasba - ein salon a'n sba masnachol o'r safon uchaf ar y safle.

### Gwasanaethau Cyhoeddus
Dyma raglen gyffrous i ddatblygu eich sgiliau datrys problemau, gwaith tîm ac arwain a'ch hyder wrth i chi gwblhau prosiectau a heriau a chymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored i ddechrau datblygu eich sgiliau ar gyfer gyrfa yn un o'r gwasanaethau cyhoeddus.

*Yn amodol ar cyllid



“Fy hoff ran i o’r cwrs ydi’r ochr ymarferol ond rydw i hefyd yn mwynhau’r ochr theori, yn dysgu am injans, crogiant a gwahanol fathau o deiars. Rydyn ni’n cael llawer o help gyda Mathemateg a Saesneg hefyd. Rydw i’n dysgu llawer a bydd hyn o help mawr i mi yn y dyfodol i weithio mewn garejys proffesiynol.

**Jack Henderson**



“Fe wnaethon ni ddysgu llawer am ddiwydiant y cyfryngau a sut mae’n gweithio. Fy hoff ran i o’r cwrs ydi dysgu am animeiddio a symudiad stoc, sy’n ymarferol ac uniongyrchol. Mae’r adeilad yn anhygoel ac yn wahanol iawn i’r ysgol. Rydw i’n teimlo’n fwy annibynnol ac rydych chi’n cael bod yn chi’ch hun. Rydw i wir yn gyffrous am wneud animeiddiad a fideo hyrwyddo yn nes ymlaen yn ystod y flwyddyn. Mae’r athrawon yn gefnogol iawn a’r dosbarthiadau’n fach, sydd o help mawr.

**Rachael Weston**



“Mae’r cwrs yn fwy ymarferol nag ydw i’n ei wneud yn yr ysgol. Rydyn ni yn y gweithdai yn aml, yn dysgu sgiliau ac yn gwneud pethau. Fe wnaethon ni focsys gwin cyn y Nadolig. Yn y dyfodol rydw i eisiau mynd ar gwrs Plymio i weld ble all hynny arwain.

**Tyrese Jones**



“Rydw i’n mwynhau’r coginio fwyaf ar y cwrs yma. Rydyn ni wedi dysgu sut i bobi crwst a sut i goginio llawer o wahanol brydau a chyris. Rydw i’n edrych ymlaen at ddysgu mwy am goginio a symud ymlaen i gyrsiau arlwyo pellach. Mae’n hwyl ofnadwy.

**Olivia Wyatt**



> Rydyn ni'n dysgu popeth am drin gwallt a thriniaethau harddwch gan gynnwys ewinedd, tylino a thrin yr wyneb. Y rhan orau i mi ydi'r trin gwallt. Rydw i eisiau trin gwallt fel gyrfa yn y dyfodol ac fy uchelgais i ydi bod yn berchen ar fy salon fy hun. Mae'r tiwtoriaid yn neis iawn ac mae'r cyfleusterau'n wych. Rydw i'n edrych ymlaen at ddysgu mwy am dorri a lliwio.
>
> **Jade Cross**

## AM GOLEG CAERDYDD A'R FRO

Coleg Caerdydd a'r Fro (CCAF) yw un o golegau mwyaf y wlad. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion ledled y rhanbarth i gefnogi pobl ifanc i ddysgu, cyflawni a gwneud cynnydd i'r yrfa o'u dewis. Mae gan CCAF y canlynol:

- ✓ y gyfradd lwyddiant uchaf yn sector AB Cymru, gydag 88% o'n myfyrwyr yn ennill eu cymhwyster
- ✓ gradd 'Da' dwbl gan Estyn yn ein harolwg diweddar
- ✓ cysylltiadau gwych â chyflogwyr – gan gynnig profiad gwaith rhagorol i fyfyrwyr a gweithio gyda miloedd o brentisiaid ledled y rhanbarth
- ✓ cefnogaeth gadarn i fyfyrwyr - gan sicrhau bod ein myfyrwyr yn derbyn gofal bugeiliol priodol a chefnogaeth ddysgu
- ✓ ffocws ar gyflogadwyedd a chynnydd - gweithio gyda phob unigolyn i'w helpu i gyflawn ei nodau gyrfaol

## EISIAU GWNEUD CAIS AM BRENTISIAETH IAU?

### Beth rydym yn chwilio amdano

Ar gyfer 2015/16, bydd Coleg Caerdydd a'r Fro'n cynnig 105 o lefydd i bobl ifanc yng Nghaerdydd ar Brentisiaeth Iau. Rydym yn disgwyl galw mawr am lefydd ac yn chwilio am bobl ifanc sy'n dechrau ym Mlwyddyn 10 ym mis Medi ac sydd...

- Eisiau cael hyfforddiant ar gyfer gyrfa yn y dyfodol
- Rhaid bod â chymhelliant i ddod i'r coleg, gweithio'n galed a dysgu am y pwnc

Does dim angen unrhyw gymwysterau blaenorol.

### Sut mae gwneud cais?

I wneud cais, mae'n rhaid i chi siarad gyda'ch Pennaeth Blwyddyn yn yr ysgol neu berson arweiniol ble rydych chi wedi cofrestru i ddysgu ar hyn o bryd. Nid yw'r Coleg yn gallu derbyn ceisiadau uniongyrchol ar gyfer Prentisiaethau Iau – rhaid i bob ymgeisydd gael ei gyfeirio drwy'r ysgol neu'r lleoliad mae wedi'i gofrestru i ddysgu ynddo ar hyn o bryd.